

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 14eg o Ionawr 2014.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair), D Martin Williams, Sharon Wynne Jones, Harry Wyn Owen – Talysarn; Barry Bracegirdle, Menna Williams, Iwan Lloyd Williams, Ifan Glyn Jones – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Eurig Evans – Nebo.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol am sylwadau'r Cyngor Cymuned.

- ▲ 1 i 5 Tai Baladeulyn, Nantlle – gosod gwydro eilaidd ffram gul alwminiwm. Cymeradwyo.
- ▲ Llain tir ger y briffordd wrth Station House, Talysarn – codi panel dehongli. Dim gwrthwynebiad.
- ▲ Maes parcio ger Lon Eifion, Heol y Dwr, Penygroes – gosod dau banel dehongli. Dim gwrthwynebiad.
- ▲ Rhan o Lon Eifion, Ffordd Clynnog – gosod panel dehongli. Dim gwrthwynebiad.
- ▲ Bryn Mor, Ffordd Caernarfon, Penygroes – codi modurdy preifat ar wahan. Cymeradwyo.

Caniatawyd cynllun trydan dwr Afon Ty Coch ac Afon Craig Las, Ffridd, Nantlle.

Gohebiaeth

Praesept 2014-15. Hysbyswyd y Cyngor na fyddai sicrhad o'r grant (sydd, hyd yn hyn, wedi ei dalu yn flynyddol) gan Gyngor Gwynedd ar ben y praesept yn 2014-15. Felly, penderfynwyd y byddai'n rhaid ychwanegu'r swm hwn at y cyfanswm praesept y byddwn yn ei hawlio. Felly, bydd y cyfanswm yn daladwy i'r Cyngor Cymuned yn aros yr un fath.

Byddwn yn gyrru mwy o fanylion i Gyngor Gwynedd am y coed sy'n amharu gweledd ar Sgwar Petris. Fe'n hysbyswyd bod coed Gwelfor, Llanllyfni wedi eu tocio, ond mae angen edrych os oes digon o dyfiant wedi ei dorri.

Derbyniwyd llythyr parthed cais llinellau melyn, Hen Lon, Penygroes. Roedd y Cynghorwyr yn teimlo bod yr ymateb sydd wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd o roi'r mater neilltu am y tro, yn un annerbyniol, gan mai'r dymuniad gwreiddiol oedd i gael llinellau melyn ar ran sylweddol o'r lon, ac nid ar rhan fychan yn unig.

Derbyniwyd gwybodaeth i'w rannu parthed Cymru'n Cofio, a llythyr gan Alun Ffred AC parthed canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd y Cyngor yn cynnig cefnogaeth i drefniadau yn y Dyffryn i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Materion Pentrefi

Talysarn Lloches Bws. Fe chwythwyd y lloches i lawr efo'r gwyntoedd cryfion dros gyfnod y Nadolig, a bu'n rhaid ei dynnu oddi yno ar fyrder ddiwrnod cyn dydd Calan oherwydd ei fod mor beryglus i'r cyhoedd. Gofynwyd i'r clerc lythyru a Chyngor Gwynedd i ofyn am gyfarfod safle.

Llanllyfni Lon Ddwr – gylis angen eu glanhau; Lori graeanu yn teithio drwy'r pentref ar wib, a dim graean yn disgyn ar y lon, ond yn hytrach yn disgyn jyst ar y palmant neu ar gair. Hyn yn gwyn ar Lon Carmel hefyd.

Nebo

Wedi gwneud ymholiadau â'r War Memorials Trust, does neb i weld yn ymwybodol o bwy sydd a chyfrifoldeb am y gof-golofn yn Nebo, ac felly y gyfrifoldeb mwy na thebyg yn disgyn ar y gymuned.

Penygroes Dwr ger cylchfan Poveys yn cronni – gwli angen ei glanhau. Brigau coed yn dod i'r pafin ar y gylchfan hon hefyd; Cofeb Chwaelwyr Dorothea, MacPelah – rhoddwyd caniatad y Cyngor Cymuned i Gymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle i fynd i'r fynwent i dacluso'r gofeb; Baw cwn ar y palmentydd – byddwn yn cysylltu efo Gyngor Gwynedd.